## P-04-321 Gwasanaethau Trenau Arriva Cymru rhwng de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru

## Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Trenau Arriva Cymru yn darparu gwasanaethau trên i gymudwyr rhwng de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru sy’n amserol, yn gyfleus ac yn addas i’r diben ac sy’n cynnwys digon o seddi/gerbydau i alluogi teithwyr i deithio’n gysurus.

### Cefndir

Cynigwyd y ddeiseb hon gan Bjorn Rödde, a chasglwyd 162 o lofnodion. Mae gwybodaeth ategol a ddarparwyd gan y deisebwyr a gohebiaeth gan y Pwyllgor i’r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi’u cynnwys isod.